**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru

06 Mehefin 2018

Annwyl Kirsty,

**Cod Trefniadaeth Ysgolion**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Mai, yn ymateb i gais y Pwyllgor ar 4 Mai i gael rhagor o fanylion am y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu eich parodrwydd i rannu'r Cod drafft cyn ei osod, a'ch bwriad i gyhoeddi ymatebion i ymgynghoriad y llynedd cyn toriad yr haf. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n poeni o ddeall y bydd oedi cyn gosod y Cod o dymor yr haf i dymor yr hydref, ac y bydd oedi yn y dyddiad dod i rym o ddechrau'r hydref i ddiwedd y flwyddyn.

Er bod y Pwyllgor yn deall, o ohebiaeth rhwng swyddogion y Llywodraeth a Phwyllgorau, y cytunwyd ar y gohirio hwn er mwyn ystyried estyn y dynodiad a'r rhestr o ysgolion gwledig, ac ymgynghori ar hyn, mae'r Aelodau'n poeni am yr ansicrwydd parhaus y mae hyn yn ei greu ar gyfer rhai ysgolion sy'n wynebu'r posibilrwydd y gallent gau.

I'r perwyl hwn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o sicrwydd o ran y canlynol:

- y camau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'ch cais iddynt ystyried, fel man cychwyn, ysbryd eich bwriad polisi a nodwyd i lunio rhestr o ysgolion gwledig a sicrhau bod rhagdybiaeth yn erbyn cau (Cyfarfod Llawn, *Cofnod y Trafodion [para 21]*, 25 Ebrill 2018); a'r
- trefniadau y byddwch yn eu rhoi ar waith i ddiogelu ysgolion rhag penderfyniadau tymor hir i gael eu gwneud tra nad yw'r Cod wedi'i gwblhau.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565